# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Meeting of Pwyllgor Craffu Cymunedau Cryf held at Remote Meeting on Dydd Iau, 29ain Ebrill, 2021 at 10.00 am**

| Councillors Present | Officers in Attendance |
|---|---|
| County Councillor L.Dymock (Chairman)<br>County Councillor A. Webb (Vice Chairman)<br><br>County Councillors: A. Easson, L. Guppy, V. Smith and J.Treharne | Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu<br>David Jones, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd |

**APOLOGIES:**

1. **Datganiadau o Fuddiant.**

   Cytunodd y pwyllgor i gofnodi unrhyw ddatganiadau o fuddiant fel sydd angen ac yn briodol wrth drafod yr adroddiadau.

2. **Fforwm Agored Cyhoeddus.**

3. **Craffu ar y cynnydd o ran gweithredu Strategaeth Toiledau Lleol Sir Fynwy cyn diweddaru Llywodraeth Cymru (adroddiad i ddilyn).**

   Roedd David Jones, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd, wedi cyflwyno'r adroddiad a rannwyd fel rhan o'r agenda a gyhoeddwyd. Esboniodd David mai pwrpas yr adroddiad oedd gweithredu'r strategaeth toiledau a gytunwyd ym Mehefin 2019. Dywedodd bod angen adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru ar y cynnydd a wnaed ar weithredu'r argymhellion dros y ddwy flynedd ddiwethaf a gofynnodd a oedd y pwyllgor am wneud argymhellion pellach.
   Roedd David wedi trafod cynnwys yr adroddiad yn fanwl, gan amlygu'r pwyntiau i'w gweithredu a'r canllaw statudol, gan ddefnyddio'r gwaith a wnaed er mwyn mapio'r holl gyfleusterau ac esboniodd y camau allweddol i'r aelodau a amlinellwyd ym mharagraffau 3.7 a 3.8 ac atodiad 1. Mae'r pandemig covid wedi atal y tîm rhag bwrw ymlaen gyda'r gwaith i raddau gan fod rhai o'r toiledau wedi eu cau pan yn ymweld gyda hwy, ond esboniodd fod gwelliannau wedi eu gwneud i rai cyfleusterau. O bersbectif cydraddoldeb a chenedlaethau'r dyfodol, esboniodd bod mwy o doiledau gennym y pen o'r boblogaeth na nifer o siroedd eraill. Amlygodd David y 10 prif gam gweithredu allweddol sydd wedi eu hamlinellu yn yr adroddiad a thrafodwyd bob un yn eu tro, cyn cymryd cwestiynau gan aelodau'r pwyllgor. .
   **Her gan Aelod:**

   Roedd y cadeirydd wedi diolch i David am ei gyflwyniad cynhwysfawr a diolchodd y tîm am eu gwaith yn ystod cyfnod heriol a digynsail. Gofynnodd y pwyllgor i ofyn eu cwestiynau a chytunodd i grynhoi'r cwestiynau er mwyn eu darparu i David a'r aelod cabinet fel a ganlyn:

   - Roedd Aelodau wedi gofyn iddynt ystyried gosod toiled yng Nghyffordd Twnnel Hafren, a hynny mewn partneriaeth gyda Thrafnidiaeth Cymru.

- Roedd y Pwyllgor wedi amlygu'r angen am arwyddion mewn toiledau er mwyn rhoi manylion am bwy sydd yn gyfrifol am lanhau a pha mor aml y mae'r toiledau yn cael eu glanhau.
- Roedd Aelodau wedi tynnu sylw at yr angen am gadwyni diogelwch, gan awgrymu bod rhai problemau wedi eu profi gyda'r toiledau yng Nghil-y-coed.
- Roeddynt hefyd wedi gofyn am gadarnhad bod problemau gyda'r ffôn hefyd wedi eu datrys a bod Profion Legionella wedi eu cynnal ar ôl cau'r toiledau yn ystod y pandemig.
- Roedd Aelodau wedi gofyn i'r Cabinet i ystyried a oedd yn bosib i godi tâl am ddefnyddio toiledau.
- Roedd y pwyllgor wedi gofyn i swyddogion i ystyried eto i weithio gyda chyfleusterau preifat er mwyn eu hagor i'r cyhoedd.
- Roedd Aelodau wedi gofyn pam fod toiledau White Horse Lane ar agor, a hynny er i'r Pwyllgor Dethol argymell y dylent gael eu cau am eu bod mewn cyflwr gwael. Awgrymodd Aelodau ystyried y cyfleusterau gwell sydd ar gael mewn gwledydd eraill fel Seland Newydd, ac yna codi tâl ar gyfer eu defnyddio.
- Roedd yna bryder bod Toiledau Brynbuga yn teimlo'n anniogel yn sgil y ffordd y maent wedi eu gosod ac mae angen ystyried maint y toiledau er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch i bawb gan eu bod yn gul iawn.
- Roedd yna bryderon hefyd ynglŷn â mynediad i'r anabl a bod angen arwydd er mwyn rhoi gwybod ble mae'r allwedd yn cael ei gadw.

Roedd y Pwyllgor Dethol hefyd wedi gofyn am eglurhad pellach ar:

1) Y costau o ran cynnal y toiledau
2) P'un ai bod yr arian a arbedwyd o ran glanhau yn ystod y pandemig yn medru cael ei roi tuag at y gwaith cynnal a chadw
3) Sut y mae modd defnyddio'r £17,000 yn fwyaf effeithiol.

Roedd y cadeirydd wedi rhoi diolch i'r tîm am eu gwaith caled yn datblygu'r holl feysydd gwaith yma. Roedd y swyddog wedi rhoi diolch i'r Cynghorwyr Smith ac Webb am eu holl waith caled yn ymweld â'r cyfleusterau gyda'i gilydd gyda'r aelod cabinet, y Cynghorydd Jane Pratt.

**4. Blaenraglen Waith y Pwyllgor Dethol Cymunedau Cryf.**

Ni nodwyd unrhyw eitemau ychwanegol.

**5. Blaenraglen Waith y Cabinet a'r Cyngor.**

Ni nodwyd unrhyw eitemau ychwanegol.

Roedd y pwyllgor wedi rhoi diolch i'r cadeirydd am gadeirio ardderchog yn ystod y flwyddyn a diolchodd hithau iddynt am eu caredigrwydd a'u cefnogaeth.

6. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol.**

7. **Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf.**

The meeting ended at **10.50 am**